Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Chwarae Bumble Bees**
**Ysgol Pendref**
**Ffordd Gwaenynog**
**Dinbych**
**Sir Ddinbych**
**LL16 3RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/03/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Chwarae Bumble Bees yn Ysgol Pendref, Dinbych Uchaf, ac mae wedi bod ar agor ers dros ddeng mlynedd. Mae’r ardal y mae’r lleoliad yn ei gwasanaethu yn cael ei hadnabod fel ardal o dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae plant o bob gallu a chefndir yn cael eu derbyn yn y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, ychydig iawn o blant oedd wedi cael eu hadnabod fel plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw blant o grwpiau ethnig lleiafrifol na phlant sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn y lleoliad. Saesneg yw’r brif iaith sy’n cael ei siarad gartref gan bob plentyn.

Mae’r lleoliad yn darparu pum sesiwn yr wythnos yn y prynhawn ar gyfer plant dwy i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau y mae plant unigol yn eu mynychu yn amrywio yn ôl dewis rhieni. Ar hyn o bryd, mae lleoedd ar gyfer naw o blant yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae arweinydd a phedair ymarferydd yn cefnogi dysgu’r plant ac mae gan bob un gymhwyster priodol i addysgu plant y blynyddoedd cynnar.

Mae’r grŵp yn cyfarfod mewn ystafell ddosbarth fawr sydd ar safle Cyfnod Sylfaen Ysgol Pendref. Yn y bore, mae grŵp *Flying Start* yn defnyddio’r ystafell a’r lleoliad yn ei defnyddio yn y pnawn. Mae gan y lleoliad ardal gaeedig y tu allan gyda mynediad iddi o’r ystafell.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Awst 2012 a gan Estyn yn ystod Chwefror 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ym mhob maes dysgu;
- y rhan fwyaf o'r plant yn cymhwyso eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda;
- gan bron bob plentyn gymhelliant da ac yn mwynhau ei amser yn y lleoliad;
- ansawdd yr addysgu a'r asesu'n dda;
- cynllunio gofalus yn darparu cynnydd a pharhad yn dysgu'r plant;
- y lleoliad yn hybu iechyd a lles plant yn effeithiol; ac mae'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff plant fynediad cyfartal at bob maes dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn darparu synnwyr cryf o ddiben sy'n hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol;
- disgwyliadau'n uchel gyda'r arweinydd yn weithredol yn cefnogi a herio pawb i wneud eu gorau;
- ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn barhaus yn ymchwilio i ffyrdd o wella;
- ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a ffyrdd gwahanol o weithio; ac mae
- amrediad o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cryf i gyflawniadau a lles plant.

## Argymhellion

A1. Cynyddu dealltwriaeth a defnydd plant o'r Gymraeg.

A2. Datblygu'r ardal awyr y tu allan yn ymhellach.

A3. Cryfhau cysylltiadau'r lleoliad gyda'r gymuned leol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ym mhob maes dysgu ag ystyried eu hoed a'u man cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn adalw dysgu blaenorol yn dda, yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau da ac yn caffael gwybodaeth a medrau newydd gyda hyder cynyddol. Mae bron bob plentyn, yn gyffredinol, yn gweithio i eithaf ei allu. Yn ystod gweithgareddau dewis rhydd, mae'r plant yn arbrofi ac yn ymchwilio'n hyderus, yn mentro ac yn gwneud cynnydd da tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud ymdrech a gynhelir i ganolbwyntio a dyfalbarhau gyda thasgau am gyfnodau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymhwyso eu sgiliau cyfathrebu a llythrennedd yn dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud eu hystyr yn eglur, yn gwrando ar a dilyn cyfarwyddiadau ac yn defnyddio iaith briodol wrth chwarae. Mae'r holl blant yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys, gyda neu heb gymorth oedolyn, ac yn eu trin fel llyfr darllen. Mae'r rhan fwyaf o blant yn arbrofi gyda gwneud marciau ac yn dechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, megis ar gyfer cymryd archeb neu wneud rhestr.

Yn ystod gweithgareddau ymarferol, mae bron yr holl blant yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn gwahanol gyd-destunau. Mae bron pawb yn defnyddio cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel cyfrifiaduron a theganau electronig yn hyderus.

Mae gan y rhan fwyaf agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Mae lleiafrif o'r plant yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau sylfaenol ac yn deall mwy o eiriau nag y maent yn gallu eu defnyddio. Yn ystod gweithgareddau grŵp cyfan, mae'r plant hyn yn ailadrodd rhai geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac yn ymuno mewn caneuon actol a rhigymau Cymraeg gyda brwdfrydedd. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o'r plant ddigon o hyder i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol.

**Iechyd a lles: Da**

Gan amlaf, mae bron pob plentyn yn arddangos lefel dda o ddiddordeb a chymhelliant tuag at ddysgu ac yn mwynhau ei amser yn y lleoliad. Mae cyfranogiad plant mewn amrywiol weithgareddau fel Cynllun Ysgolion Iach yr ysgol, yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a'r gweithgaredd corfforol a wnânt. Mae gan y plant berthynas agos gyda'r ymarferwyr ac ymddiriedant yn eu harweiniad. Mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn dda yn ac o amgylch y lleoliad ac maent yn ystyriol a chwrtais tuag at eraill ac oedolion. Wrth wneud gweithgareddau penodol

neu dasgau o'u dewis eu hunain, mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gyfeillgar gan arddangos lefelau cynyddol o annibyniaeth. Mae'r holl blant yn fodlon iawn i ymgymryd â chyfrifoldebau megis cyfrif y nifer sy'n bresennol yn ystod cofrestru ac, wrth iddynt aeddfedu, maent yn dysgu gwneud penderfyniadau mwy bwriadus ynghylch eu dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau hyblyg ac ymatebol sy'n galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at gyfarfod deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ym mron pob maes dysgu. Mae gweithgareddau diddorol a symbylus yn ennyn diddordeb yr holl blant gan eu galluogi i wneud cynnydd da yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n bodoli, ac yn darparu cynnydd a pharhad mewn dysgu. Caiff plant eu hannog i ffurfio perthnasau cadarnhaol gydag eraill yn y lleoliad ac i ddod yn ymchwilwyr hyderus o'u hamgylchedd. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da dan do ac yn yr awyr agored i blant ymchwilio i'w hamgylchedd a dod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio sut i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl yn dda. Mae plant yn cael eu hannog i gyfleu eu teimladau a'u syniadau fel unigolion ac mewn grwpiau, i wrando'n ofalus ar eraill ac i gymryd rhan mewn chwarae rôl a ffurfiau eraill o chwarae dychmygus. Mae ymarferwyr yn cyflwyno plant i amrediad o lyfrau darllen a llyfrau gwybodaeth ac yn eu hannog i rannu llyfr gyda phlant eraill neu oedolion. Mae cyfleoedd da i blant arbrofi gyda gwneud marciau ac i ddeall gwahanol swyddogaethau ysgrifennu.

Er bod ymarferwyr yn achlysurol yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu, nid yw'r ddarpariaeth hon yn gydlynus nac wedi ei chynllunio'n ddigon da i sicrhau cynnydd yn nealltwriaeth a dysgu'r plant. Mae cyfleoedd priodol i hybu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymru.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ymwneud yn weithredol yn nod y lleoliad i ymddwyn yn gynaliadwy trwy gadw gwastraff i'r isafswm, arbed egni ac ailgylchu papur. Maent yn hybu eu dealltwriaeth o'r byd mawr yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen a disgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant. Mae'r amgylchedd symbylus, heriol a llawn cynnwrf sy'n cael ei chreu yn annog y plant i ymwneud, cyfranogi a mwynhau. Trwy eu swyddogaeth fel gweithwyr allweddol, mae ymarferwyr yn sicrhau bod profiadau dysgu'n cael eu haddasu'n fedrus i gyfarfod ag anghenion yr holl blant, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog a phlant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn gwybod pryd y mae'n briodol i ymyrryd yn dysgu'r plant. Gwnânt hynny'n sensitif a medrus er mwyn annog y plant i'w herio eu hunain wrth ddysgu.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau y mae'r plant yn eu dewis a rhai dan arweiniad ymarferwyr. Caiff deunydd dychmygus ei wneud o amrywiaeth o adnoddau er mwyn apelio at ddiddordeb plant a gwella dysgu. Mae ffocws eglur i'r gefnogaeth gan oedolion ac mae'n gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at ansawdd dysgu'r plant.

Mae cynnydd a dysgu'r plant yn cael eu hasesu a'u tracio ar draws pob maes dysgu ac mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio'n fwriadus i gynllunio cam nesaf y dysgu. Mae rhieni'n cael eu hannog i ymwneud â dysgu eu plant ac yn cael gwybodaeth dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hybu iechyd a lles plant yn effeithiol ac mae ganddo bolisïau ac arferion priodol sy'n sicrhau bod yr agweddau hyn wedi gwreiddio'n ddwfn yn y gweithrediadau dydd i ddydd. Mae'r holl blant yn cael eu hannog i fwyta'n iach yn ystod amser byrbrydau, i lanhau eu dannedd ar ôl cinio ac i gymryd rhan mewn ymarfer corff dyddiol. Mae trefniadau anwytho da yn sicrhau bod plant yn setlo i lawr yn gyflym yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant i reoli eu teimladau, i ddatblygu hunan ymwybyddiaeth a hunan barch. Mae hybu gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch at y gwir yn cynorthwyo'r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn neu beidio. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddangos blaengaredd, i ddeall rheolau ymddygiad syml ac i gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain.

Yn ôl yr angen, mae ymarferwyr yn gwybod sut i gael mynediad at gefnogaeth broffesiynol a chyngor gan athrawon cyfnod sylfaen a hefyd gan y gwasanaethau cymdeithasol a seicolegwyr addysg. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod plant a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y lleoliad yn cynnig mynediad llawn at bob maes dysgu i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn cyfarfod â'r gofynion ac nid oes unrhyw achos i bryderu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal at bob maes dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o unrhyw aflonyddu. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus y mae pob plentyn yn gallu manteisio'n llawn ynddi ar brofiadau dysgu, a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae digonedd o adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes dysgu a chânt eu cydweddu'n ofalus i anghenion datblygu a dysgu pob unigolyn. Mae adnoddau yn y

gymuned, er enghraifft y parc chwarae antur, yn cael eu defnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r adeilad a'r ystafell o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth. Er bod ardal ddynodedig ar gyfer chwarae yn yr awyr agored, nid yw wedi cael ei datblygu i'w llawn botensial.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd wedi llwyddo i greu ethos cadarnhaol yn y lleoliad lle mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Mae synnwyr cryf yr arweinydd o ddiben yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu ac addysgu'n cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol. Mae perthnasau gyda phlant, rhieni a'r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n arwyddocaol at synnwyr o gymuned.

Mae disgwyliadau ar gyfer sicrhau llwyddiant yn uchel, ond yn realistig, gyda'r arweinydd yn weithredol yn cefnogi a herio pawb i wneud ei orau. Mae gweithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu perfformiad staff ac adnabod anghenion hyfforddiant a datblygu unigolion a rhai lleoliad cyfan yn drwyadl ac effeithiol. Maent yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad a gweithredu newid.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae'n cefnogi'r lleoliad fel cyfaill beirniadol ac yn cael dylanwad ar gynnal safonau uchel a gosod blaenoriaethau.

Mae parodrwydd yr arweinydd i ymgymryd â mentrau lleol a chenedlaethol newydd yn sicrhau bod datblygiadau cyfoes yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus yn y lleoliad. Mae mentrau diwedda, megis asesu ar gyfer dysgu, y fenter ysgol iach a mabwysiadu 'gweithwyr allweddol' ar gyfer grwpiau o blant, wedi arwain at welliannau gweladwy yn ansawdd dysgu a lles plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu yn broses barhaus yr ymgymerir â hi'n effeithiol; mae'n arwain at welliannau ar gyfer plant. Mae ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda, a thrwy reolaeth fwriadus yr arweinydd, yn barhaus yn ymchwilio i ffyrdd o wella. Sefydlodd y lleoliad weithdrefnau cadarn i gynnal arfer dda ac i weithredu newid mewn meysydd sydd angen eu gwella. Mae hunan arfarnu yn ystyried barn rhieni a rhai'r pwyllgor rheoli yn ofalus. Caiff y lleoliad fantais sylweddol o'r cyngor gan athrawes gefnogol yr awdurdod lleol.

Caiff y wybodaeth sy'n deillio o hunan arfarnu ei defnyddio'n bwrpasol i flaenoriaethu materion y mae'r lleoliad yn dymuno eu gwella. Mae'r lleoliad wedi cymryd camau i

wella'r safonau a'r ddarpariaeth ac i ddelio ag argymhellion adroddiad yr arolygiad diwethaf. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol.

Mae'r diwylliant sefydlog o gydweithredu, ynghyd â bodlonrwydd staff i ymgymryd â chyfrifoldebau, yn galluogi'r lleoliad i ddatblygu fel cymuned ddysgu gref. Mae ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn fodlon rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio ac i rannu eu gwybodaeth gydag eraill yn y lleoliad. Mae hyn yn gryfder mawr sydd wedi cael dylanwad arwyddocaol ar effeithiolrwydd datblygiadau diweddar.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae amrediad o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cryf tuag at lwyddiannau'r plant a'u lles. Mae partneriaeth gynhyrchiol iawn gydag Ysgol Pendref a'r lleoliad yn manteisio'n sylweddol ar barodrwydd yr ysgol i rannu adnoddau a chyngor. Mae rhieni'n cael gwybodaeth dda am bob agwedd o waith y lleoliad a'r arweinydd yn manteisio ar bob cyfle i'w cynnwys yn dysgu eu plant. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am y plant ac yn gwybod â phwy i gysylltu a phryd os oes angen cefnogaeth ychwanegol ar y plant.

Ychydig o gysylltiadau sydd wedi cael eu ffurfio gyda sefydliadau yn y gymuned leol. Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol rheolaidd athrawes gefnogol yr awdurdod lleol yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad nifer priodol o staff i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm ac mae aelodau o staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae adnoddau'n cael eu rheoli'n dda.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drwyadl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu harfarnu'n ofalus dros ben gan yr arweinydd a'r trysorydd i sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**
Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |